## Cynigion a Gwelliannau i'w Trafod ar 24 Medi 2003

## Cynigion a gyflwynwyd ar 17 Medi 2003

**Dadl Fer:**

**NDM1617 Mick Bates (Sir Drefaldwyn);** Tai Fforddiadwy mewn Cymunedau Gwledig

**NDM1616 Karen Sinclair (De Clwyd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn croesawu'r cyfle i gyfrannu at graffu ar y mesur drafft arfaethedig, Mesur Archwilio Cyhoeddus (Cymru), cyn iddo fynd drwy'r broses ddeddfwriaethol;

2. Yn nodi adroddiad y pwyllgor a fu'n ystyried y Mesur drafft, sef Pwyllgor Mesur Archwilio Cyhoeddus (Cymru), a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 22 Gorffennaf 2003;

3. Yn cymeradwyo bwriad y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus i barhau i drafod ag Ysgrifennydd Gwladol Cymru a oes modd sicrhau cyfle deddfwriaethol cynnar i gyflwyno Mesur Archwilio Cyhoeddus (Cymru).

*Gellir gweld y drafft o Fesur Archwilio Cyhoeddus (Cymru) drwy ddefnyddio'r cyswllt isod:* *http://www.walesoffice.gov.uk/sp_20030403.pdf*

## Gwelliannau a gyflwynwyd ar 19 Medi 2003

Cynnig bod y Cynulliad yn penderfynu mabwysiadu'r gwelliannau canlynol i gynigion:

**NDM1616**

**1. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu ar ddiwedd Pwynt 1:

'ac yn galw ymhellach am gyfleoedd tebyg yn y dyfodol i graffu ar Fesurau Drafft arfaethedig sy'n ymwneud â Chymru.'

**2. Janet Davies (Gorllewin De Cymru)**

Ym mhwynt 2, dileu 'Yn nodi' ac yn ei le rhoi 'Yn cymeradwyo'r argymhellion a nodir yn'